



# EIN GWERTHOEDD

**CYNULLEIDFAOEDD. CREADIGRWYDD. YMDDIRIEDAETH. PARCH. ATEBOLRWYDD. UN BBC.**



OUR VALUES. OUR BBC

Mae gennym rôl unigryw ym mywydau cynulleidfaoedd: sef hysbysu, addysgu a diddanu miliynau o bobl yn y Deyrnas Unedig a ledled y byd.

Er mwyn cyflawni hyn gyda phob cynulleidfa, mae angen i ni ddenu a chadw talent amrywiol o'r radd flaenaf gan ddod â phawb ynghyd i gefnogi cyfres gyffredin o werthoedd ac ymddygiad.

A hwythau'n fwy na dim ond geiriau ar dudalen, mae ein gwerthoedd yn sail i bopeth rydym yn ei wneud. Maen nhw'n diffinio beth allwch chi ei ddisgwyl gan y BBC, a beth mae'r BBC yn ei ddisgwyl gennych chi - gan ein helpu ni i greu BBC sy'n greadigol, yn gynhwysol ac yn llawn cyfleoedd.

**Tim Davie**
**BBC Director-General**




BBC RADIO 1
CYNULLEIDFAOEDD



# Mae CYNULLEIDFAOEDD wrth galon popeth a wnawn.

### Beth allwch chi ei ddisgwyl gan y BBC

- Ffocws ar sicrhau gwerth i bob cynulleidfa a chwsmer yn ogystal â sicrhau budd y cyhoedd
- Gweithio ar bethau sy'n bwysig bob dydd gyda synnwyr clir o bwrpas a sut gallwch chi gyfrannu at hynny
- Helpu i hysbysu, i addysgu ac i ddiddanu miliynau o bobl yn y DU a ledled y byd

### Beth mae'r BBC yn ei ddisgwyl gan bawb

- Hyrwyddo pob cynulleidfa a chwsmer, rhoi eu buddiannau wrth galon popeth rydych chi'n ei wneud
- Sicrhau eich bod yn glir ynghylch pwrpas eich rôl: lle mae'n ffitio a pham mae rhagoriaeth a pherfformiad uchel yn bwysig

### Yr hyn y mae'r BBC yn ei ddisgwyl gan arweinwyr

- Arwain drwy esiampl o ran eich perfformiad, eich gweithredoedd a'ch ymddygiad
- Bod yn egnïol ac optimistaidd er mwyn cyflawni a rhagori, drwy sicrhau bod eich tîm yn deall eu cyfraniad at genhadaeth, pwrpas, gwerthoedd a strategaeth y BBC
- Chwilio'n frwd am gyfleoedd idimau mewnol neu bartneriaethau allanol gydweithio er budd y BBC a'r cynulleidfaoedd rydym yn eu gwasanaethu


CREADIGRWYDD



# CREADIGRWYDD yw curiad calon ein sefydliad.

### Beth allwch chi ei ddisgwyl gan y BBC

- Cyfrannu at gefnogi a darparu cynnwys a gwasanaethau sy'n torri tir newydd ar gyfer ein holl gynulleidfaoedd
- Amgylchedd ysbrydoledig lle mae creadigrwydd yn ffynnu a gall y syniad mawr nesaf ddod gan unrhyw un

### Beth mae'r BBC yn ei ddisgwyl gan bawb

- Byddwch yn fentrus gyda syniadau a chwilio am gyfleoedd i fod yn greadigol. Dylech hyrwyddo'r syniadau gorau, nid dim ond eich rhai chi
- Dangos eich bod yn ymwybodol o'r syniadau, y tueddiadau a'r wybodaeth ddiweddaraf yn eich maes
- Gwahodd lleisiau a safbwyntiau newydd i ysgogi eich creadigrwydd. Dewch i adnabod pobl a deall beth maen nhw'n ei wneud mewn rhannau eraill o'r BBC a'r tu allan

### Yr hyn y mae'r BBC yn ei ddisgwyl gan arweinwyr

- Creu amgylchedd lle gall timau arloesi, profi a datblygu syniadau
- Rhoi'r amser, y gefnogaeth a'r adnoddau i'ch tîm arbrofi a chymryd risgiau deallus i sicrhau mwy o greadigrwydd a gwerth


YMDDIRIEDAETH
FUJINON



# YMDDIRIEDAETH yw carreg sylfaen y BBC - rydyn ni’n annibynnol ac yn onest.

### Beth allwch chi ei ddisgwyl gan y BBC

- Bod yn rhan o un o sefydliadau mwyaf adnabyddus y byd lle mae didueddrwydd a gwirionedd yn hanfodol i ymddiriedaeth
- Diwylliant lle mae lleisio barn, siarad yn ddi-flewyn ar dafod, gweld heriau fel cyfleoedd a gwneud penderfyniadau clir, amserol a gwybodus yn cael eu gwerthfawrogi
- Dulliau gweithio lle mae haelioni, cyfraniadau cadarnhaol a chyd-gefnogaeth yn allweddol

### Beth mae’r BBC yn ei ddisgwyl gan bawb

- Bod yn llysgennad ar ran y BBC. Bod yn foesegol, yn ddiduedd ac yn onest ym mhopeth a wnewch a chodi eich llais pan fydd gennych bryderon am arferion anfoesegol
- Gwneud penderfyniadau clir, gwybodus ac amserol a gwneud yr hyn rydych chi’n dweud y byddwch chi’n ei wneud
- Mynd ati’n weithredol i feithrin cysylltiadau cryf sy’n seiliedig ar onestrwydd, ymddiriedaeth a bod yn agored

### Yr hyn y mae’r BBC yn ei ddisgwyl gan arweinwyr

- Gweithredu fel arweinwyr y BBC cyfan, gan ganolbwyntio ar ein huchelgais fyd-eang, nid dim ond ar eich maes chi
- Meithrin ymddiriedaeth ac ymgysylltiad drwy gyfathrebu’n rheolaidd o fewn eich tîm a rhwng timau sy’n cydweithio
- Meithrin trafodaeth agored ac adeiladol am ddata a syniadau sydd y tu hwnt i’r cyffredin, er mwyn codi ymwybyddiaeth, herio rhagdybiaethau a rhagfarn y tîm, a chael syniadau newydd


PARCH
BBC
SPORT
柔道
スポーツ
ゴールドメダル
山久農場
ランナー
キンメダル
日本人セラ
居酒屋




# Rydyn ni'n PARCHU ein gilydd – rydyn ni'n garedig ac rydyn ni'n hyrwyddo cynhwysiant.

### Beth allwch chi ei ddisgwyl gan y BBC

- BBC agored sy'n adlewyrchu ac yn dathlu amrywiaeth y cynulleidfaoedd a wasanaethwn ar draws y sefydliad
- Rhyddid i ddod â'ch hunan go iawn i'r gwaith a hyder i allu lleisio eich barn a bod eich llais unigryw yn cael ei glywed a'i werthfawrogi
- Polisïau ac arferion sy'n cyd-fynd â'n huchelgeisiau cynhwysol a'n dewisiadau gweithio hyblyg i gyd-fynd â'ch anghenion a'ch llesiant


### Beth mae'r BBC yn ei ddisgwyl gan bawb

- Dewch â'ch hunan go iawn i'r gwaith gan weithio i'ch cryfderau. Byddwch yn eiriolwr dros gynhwysiant a pharch, a chodi llais pan nad yw hyn yn digwydd
- Rhoi eich holl sylw i bobl a sefyllfaoedd gan gydnabod a deall emosiynau, syniadau a safbwyntiau pobl eraill
- Dangos hunanymwybyddiaeth a haelioni. Byddwch yn ystyriol o'ch effaith ar bobl eraill a'u gwaith

### Yr hyn y mae'r BBC yn ei ddisgwyl gan arweinwyr

- Bod yn gynhwysol ac yn deg yn y ffordd rydych chi'n cyflogi, yn rheoli, yn tyfu, yn dathlu ac yn gwobrwyo talent - meithrin timau sydd wir yn cynrychioli ein cynulleidfaoedd
- Creu amgylchedd tîm lle rydyn ni'n trin pawb yn deg ac yn gyfartal, lle gellir lleisio barn a derbyn safbwyntiau amrywiol yn onest ac yn barchus a lle mae pryderon yn cael eu codi
- Gofyn yn rheolaidd i'ch tîm beth sydd ei angen i gefnogi ymgysylltiad a llesiant parhaus, yn enwedig yn ystod cyfnodau o newid


ATEBOLRWYDD



# Rydyn ni’n ATEBOL ac yn cyflawni gwaith o’r safon uchaf.

### Beth allwch chi ei ddisgwyl gan y BBC

- Ffocws ar berfformiad a safonau ymddygiad uchel
- Eich grymuso i gyflawni eich gwaith gorau
- Cyfrannu at ein hymrwymiad cynaliadwyedd i gyflawni Sero Net erbyn 2030, yn ogystal â hysbysu ac ysbrydoli cynulleidfaoedd ynghylch newid yn yr hinsawdd

### Beth mae’r BBC yn ei ddisgwyl gan bawb

- Mae perfformio’n uchel fel unigolyn ac ar y cyd yn bwysig. Byddwch yn fasnachol ymwybodol, yn amgylcheddol gyfrifol a chanolbwyntiwch ar ganlyniadau
- Manteisio ar y cyfle i gymryd yr awenau ac i osod nodau a thargedau ymestynnol. Cyflawni’n chwim a dathlu llwyddiant
- Ysgwyddo cyfrifoldeb dros werth am arian a rhagoriaeth weithredol; canfod atebion syml i broblemau a’u helpu i’w rhoi ar waith

### Yr hyn y mae’r BBC yn ei ddisgwyl gan arweinwyr

- Ysgwyddo cyfrifoldeb dros gynlluniau y cytunwyd arnynt a’r cyfeiriad strategol. Bod yn glir ynghylch rolau a chyfrifoldebau. Aros yn ystwyth a helpu eich tîm i addasu
- Cytuno ar nodau cyraeddadwy clir ac uchelgeisiol gyda’ch tîm o ran perfformiad ac ymddygiad. Esbonio sut mae perfformiad uchel yn edrych a pham ei fod yn bwysig
- Dal eich tîm yn atebol am ganlyniadau unigol ac ar y cyd. Tracio cynnydd a rhoi adborth amserol, gonest a rheolaidd ar ymddygiad a pherfformiad. Cefnogi a herio i helpu unigolion i newid o berfformiad da i berfformiad uchel a chymryd camau gweithredu lle mae angen gwella perfformiad


UN BBC



# Rydyn ni'n UN BBC – rydyn ni'n cydweithio, yn dysgu ac yn tyfu gyda'n gilydd.

### Beth allwch chi ei ddisgwyl gan y BBC

- Y cymorth, yr adnoddau a'r dechnoleg i weithio a chydweithio'n effeithiol ar draws timau
- Cyfle i ddysgu gan arbenigwyr byd-eang a chyfleoedd rheolaidd i ddatblygu eich hun
- Mwy o ryddid i symud o gwmpas, i ysgwyddo cyfrifoldeb yn gynnar ac i ddatblygu eich gyrfa

### Beth mae'r BBC yn ei ddisgwyl gan bawb

- Gweithredu, meddwl a chydweithio fel un BBC. Ystyried anghenion a blaenoriaethau pobl eraill a'r sefydliad ehangach wrth gynllunio a gweithredu
- Bod yn gyfrifol am eich dysgu a'ch gyrfa. Bod yn agored i adborth: gwrando ar gynulleidfaoedd, cwsmeriaid a chydweithwyr a myfyrio ar lwyddiannau a chamgymeriadau wrth i chi ddysgu a thyfu
- Croesawu newid: chwilio am gyfleoedd newydd a chanolbwyntio ar eich llesiant er mwyn gallu ymateb yn hyblyg i heriau newydd

### Yr hyn y mae'r BBC yn ei ddisgwyl gan arweinwyr

- Cyd-greu cynlluniau datblygu a thrafod cynnydd o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Annog unigolion i fanteisio i'r eithaf ar yr hyn sydd gan y BBC cyfan i'w gynnig
- Modelu meddylfryd o ddysgu. Hyfforddi aelodau'r tîm yn rheolaidd ar berfformiad ac ymddygiad. Gofyn y cwestiynau cywir i ddatblygu dealltwriaeth o sefyllfa, canfod atebion a datrys gwrthdaro
- Ysbrydoli eich tîm i groesawu newid. Cyfathrebu'n aml ac yn bersonol drwy gyfnodau o ansicrwydd. Bod yn onest am yr hyn sydd wedi cael ei benderfynu a'r hyn y gall y tîm ddylanwadu arno



# CYNULLEIDFAOEDD. CREADIGRWYDD. YMDDIRIEDAETH. PARCH. ATEBOLRWYDD. UN BBC.




OUR VALUES. OUR BBC

